# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 184(v7)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Tata Steel

(45 munud)

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru): Colli swyddi yn Tata Steel, a dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Strategaeth Tlodi Plant Cymru**

(45 munud)

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Economi Blaenau'r Cymoedd – Gohiriwyd**

(0 munud)

**6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

(30 munud)

**7 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Sefydliad Iechyd y Byd, Ewrop – Gohiriwyd**

(0 munud)

**8 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad**

(30 munud)

**9 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd**

(30 munud)

**10 Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024**

(15 munud)

**NDM8455** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024 yn cael ei gwneud yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2023.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 24 Ionawr 2024

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 18/01/2024 i'w hateb ar 23/01/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ60571 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o nifer y lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith sydd ar gael yng Nghymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

2 OQ60560 **(e)**

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau lleol ynghylch y rhesymeg y mae'n rhaid iddynt ei dilyn wrth baratoi eu cynlluniau datblygu lleol?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

3 OQ60581 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r ymateb cyhoeddus i adolygiad Llywodraeth Cymru o 20mya?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ60582 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw toriadau i gyllid awdurdodau lleol yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

5 OQ60575 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch adfer cyllideb Cymru yn unol â chwyddiant cynyddol yn y DU?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ60568 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud tuag at gynnig adferiad cyflog teg i feddygon iau?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

7 OQ60584 **(e)**

Pa sylwadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch canllawiau drafft y Swyddfa Gartref a fyddai'n caniatáu i brotestwyr gwrth-erthyliad fynd at fenywod sy'n mynd i glinigau erthyliad?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8

## OQ60583 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

9

## OQ60551 (e)

Pa gynnydd y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud ar fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru ers 2018?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

10

## OQ60564 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi cefnogaeth ariannol i bobl o gefndiroedd difreintiedig?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11

## OQ60543 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd ym Mhreseli Sir Benfro yn y deuddeg mis nesaf?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

12

## OQ60580 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog nodi ymyriadau Llywodraeth Cymru i ddileu canser ceg y groth?